

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Signature Clinic, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 17 Gorffennaf 2023

Dyddiad yr arolygiad dilynol: 7 Medi 2023

Dyddiad cyhoeddi: 30 Gorffennaf 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83625-372-3

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Signature Clinic ar 17 Gorffennaf 2023. Gwnaethom gynnal arolygiad dilynol ar 7 Medi 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad cychwynnol yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol. Gwnaethom gynnal arolygiad dilynol ac roedd y tîm hwnnw yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Yn ystod yr arolygiad cychwynnol ym mis Gorffennaf 2023, gwelsom fod Signature Clinic yn torri amodau adran 24 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 mewn perthynas â methu â chydymffurfio ag amodau'r cofrestriad. Roedd hyn am fod tystiolaeth wedi cael ei chanfod a oedd yn dangos bod y clinig wedi bod yn darparu gwasanaethau y tu hwnt i gwmpas ei gofrestrriad sy'n drosedd. Rhoddwyd polisi gorfodi AGIC ar waith o ganlyniad, ac ymdriniwyd â'r mater ar wahân i'r arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd bod y rheolwr cofrestredig a'r staff yn y clinig yn gweithio i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion wrth iddynt gael triniaethau cosmetig. Fodd bynnag, gwnaethom godi pryderon sylweddol mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, dihalogi a rheoli cleifion yn ddiogel wrth roi triniaethau ac ar ôl rhoi triniaethau. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses diffyg cydymffurfio a oedd yn cynnwys arolygiad dilynol.

Roedd y cleifion yn cael amrywiaeth o wybodaeth cyn ac ar ôl y driniaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos.

Roedd y clinig yn sicrhau y gallai pobl sydd â phroblemau symudedd gael mynediad hwylus i'r gwasanaeth, a oedd yn cynnwys cyfleusterau ystafell ymolchi addas ar gyfer cleifion â gofynion mynediad symudedd. At hynny, roedd staff y clinig wedi ymgymryd â hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid arddangos gwybodaeth am sut i roi adborth yn y clinig.
- Dylai'r clinig arddangos gwybodaeth am sut y gallai cleifion helpu eu hiechyd a'u llesiant.
- Diweddarau'r Datganiad o Ddiben a'r Daflen Wybodaeth i Gleifion i gynnwys gwybodaeth gyfredol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion am driniaethau sy'n cael eu darparu yn y clinig, gan gynnwys gwybodaeth am ofal cyn ac ar ôl triniaethau.
- Darparu amgylchedd cynhwysol lle caiff cleifion â nodweddion gwarchoddedig eu trin yn gyfartal.
- Roedd gwefan gynhwysfawr a oedd yn cynnwys manylion am bob triniaeth. Roedd y wybodaeth hon ar gael ar ffurf copi caled ar gais.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, ni chawsom sicrwydd fod y prosesau yn y clinig yn ddiogel nac yn effeithiol. Gwnaethom nodi meysydd nad oeddent yn cydymffurfio â'r rheoliadau a arweiniodd felly at gyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Gwelsom dystiolaeth fod y clinig yn cynnal triniaethau y tu hwnt i'r rhai hynny y cytunwyd arnynt yn amodau ei gofrestrriad. O ganlyniad, cymerwyd camau brys i atal cofrestrriad y clinig ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Cyhoeddwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio yn dilyn yr arolygiad ym mis Gorffennaf 2023. Roedd yr hysbysiad hwn yn ymwneud â'r prosesau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith. Cafwyd sicrwydd digonol yn ystod yr arolygiad dilynol ym mis Medi 2023. Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Ni chawsom sicrwydd fod glendid y theatrau llawfeddygol yn cynnig amgylchedd di-haint
- Nid oedd y broses ar gyfer monitro cleifion yn ystod triniaethau yn ddigonol.
- Nid oedd y trefniadau i'r cleifion gael gafael ar gyngor meddygol brys ar ôl eu triniaethau yn ddigonol.
- Nid oedd y broses ddihalogi yn rhoi sicrwydd i ni fod offer yn cael ei sterileiddio'n briodol rhwng cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Dylid sicrhau bod hyfforddiant adfywio yn cael ei ddarparu gan ddarparwr hyfforddiant â chymwysterau addas.
- Sicrhau y caiff allweddi i gael gafael ar feddyginiaeth eu cadw'n ddiogel.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod cofnodion meddygol y cleifion yn glir, yn cael eu storio'n ddiogel a'u bod yn cynnwys y wybodaeth berthnasol ddisgwyliedig.
- Roedd y gwasanaeth yn defnyddio amserlenni glanhau er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r clinig yn cael ei glanhau yn rheolaidd.
- Gwelsom fod Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael i'r staff ei ddefnyddio.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth y clinig yn glir ac yn strwythuredig. Fodd bynnag, nid oedd rheolwr bob amser yn bresennol ar y safle pan oedd y clinig ar agor ac yn cynnal llawdriniaethau.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn ymddangos yn awyddus i hyrwyddo cyfathrebu o fewn y tîm er mwyn sicrhau cydberthnasau gwaith cynhyrchiol. Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cofnodion yn cael eu cymryd.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol a bod y clinig yn cadw cofnod o ddyddiadau adnewyddu hyfforddiant gan ddefnyddio cronfa ddata bwrpasol.

Nodwyd gennym fod y staff yn cael arfarniadau rheolaidd a dywedwyd wrthym fod cyfleoedd hyfforddi a chyrsgiau pellach ar gael iddynt ar gais. Fodd bynnag, ni chawsom gyfle i siarad â'r staff i gadarnhau hyn.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Ni allem fod yn sicr bod y staff yn meddu ar y cymwysterau, y sgiliau a'r profiad addas i helpu i gynnal triniaethau llawfeddygol, gan gynnwys gwirio meddyginiaethau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn y clinig yn meddu ar y cymwysterau a'r sgiliau priodol
- Byddai'n fuddiol i'r gwasanaeth sicrhau bod rheolwr ar y safle i oruchwylio materion wrth iddynt godi ac i reoli'r trefniadau llywodraethu

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau i ategu'r prosesau yn y clinig.
- Roedd y staff yn ymgymryd ag amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol
- Roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal ac roedd cofnodion yn cael eu cymryd a'u dosbarthu i'r tîm ehangach.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y lleoliad i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig. Dim ond dau holiadur wedi'u cwblhau a gawsom. Roedd yr holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r clinig ers hyd at flwyddyn.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Cefais ddigon o wybodaeth am y driniaeth ac yn ystod y driniaeth. Mae'r gwasanaeth ardderchog ar ôl y driniaeth wir wedi creu argraff."

Diogelu a gwella iechyd

Prin oedd y wybodaeth hybu iechyd a oedd yn cael ei harddangos yn y clinig. Fodd bynnag, mae'r wefan yn cynnwys manylion am y gwasanaethau sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am bob triniaeth. Gwelsom fod taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn y dderbynfa a oedd yn cynnwys manylion am y triniaethau a oedd ar gael yn y clinig.

Urddas a pharch

Gwelsom fod gan Signature Clinic ddwy ystafell drin wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod. Roedd gan bob ystafell drin ystafell asesu wrth ei hymyl lle gallai'r cleifion ddadwisgo ac a oedd yn cynnig man preifat lle gallai'r staff dynnu lluniau cyn y llawdriniaeth. Roedd gan bob ystafell ddrws y gellid ei gloi. Gwelsom fod yr ystafelloedd yn daclus ac nad oedd unrhyw annibendod. Fodd bynnag, gwelsom fod safonau atal a rheoli heintiau yn yr ystafelloedd trin yn is na'r lefel dderbyniol sy'n ofynnol.

Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses diffyg cydymffurfio AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) i'r adroddiad hwn.

Nid oedd unrhyw ffenestri, felly nid oedd modd gweld i mewn i'r ystafelloedd o'r tu allan i'r clinig. Er hynny, nid oedd unrhyw sgriniau na llenni preifatrwydd yn unrhyw un o'r ystafelloedd er mwyn rhoi preifatrwydd i'r cleifion wrth newid.

Rydym yn argymhell y dylid defnyddio sgriniau neu lenni i gynnal urddas y cleifion wrth iddynt newid cyn eu triniaeth.

Ni wnaeth y gwasanaeth weld unrhyw gleifion ar ddiwrnod ein harolygiad; fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu cyfarch wrth iddynt gyrraedd y clinig a bod y staff yn cael eu cyflwyno iddynt yn anffurfiol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig gopiâu i ni o ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y clinig. Gwnaethom nodi bod angen diweddarau'r datganiad o ddiben er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol a chywir. Cafodd fersiwn ddiwygiedig ei darparu gan y rheolwr cofrestredig ar ôl yr arolygiad dilynol a nodwyd gennym ei bod yn cynnwys y wybodaeth gywir.

Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac nid oedd unrhyw bolisi a oedd yn nodi'r camau gweithredu i'w cymryd pe bai cleient am gael gwybodaeth yn Gymraeg. Dywedwyd wrthym y byddai cyfieithydd yn cael ei ddefnyddio pe bai angen.

Dywedwyd wrthym fod y cleientiaid yn trefnu apwyntiadau drwy'r tîm trefnu a marchnata. Wedyn, bydd meddyg ymgynghorol yn cysylltu â'r cleient o bell. Wedyn, bydd y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb â'r llawfeddyg ar ddiwrnod y driniaeth. Nododd y rheolwr cofrestredig fod gwybodaeth fanwl yn cael ei darparu i'r cleifion am y driniaeth a'r broses a ddilynir ar ddiwrnod y driniaeth. Caiff y wybodaeth hon ei hanfon atynt drwy e-bost cyn iddynt gael eu triniaeth. Gellir darparu copïau caled o'r wybodaeth hon ar gais.

Roedd gan y clinig wefan llawn gwybodaeth a oedd yn cynnwys manylion am bob triniaeth hefyd. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau ar unrhyw gam o'r daith gan ddefnyddio'r llinell gymorth dros y ffôn ac y byddai meddyg yn ymateb iddynt.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd y rheolwr cofrestredig a'r meddygon ymgynghorol yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl y driniaeth fel y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael amrywiaeth o wybodaeth fanwl ar lafar ac yn ysgrifenedig cyn ac ar ôl y driniaeth, er mwyn sicrhau y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Roedd y clinig yn defnyddio cofnodion meddygol digidol, a oedd yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr a manwl am gydsyniad y cleifion.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd gan y clinig wefan llawn gwybodaeth yn rhestru'r triniaethau sydd ar gael a manylion y triniaethau hynny. Nododd y rheolwr cofrestredig y byddai'r cleifion na allent gael gafael ar y wybodaeth hon yn ddigidol yn cael copi caled o'r wybodaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd y staff fod y cleifion yn cael gwybodaeth ysgrifenedig ac ar lafar am eu gofal a'u triniaeth fel rhan o'r broses o gynllunio gofal. Cadarnhaodd y staff mai anaml y byddai oedi cyn gweld cleifion ar ddiwrnod eu hapwyntiad yn y clinig. Pe bai oedi na ellid ei osgoi, cadarnhaodd y staff y byddai'r cleifion yn cael gwybod am hynny.

Disgrifiodd y person cofrestredig y trefniadau ar gyfer asesu cleifion cyn cyflawni triniaethau ac yn ystod y triniaethau ac ar gyfer rhyddhau cleifion ar ôl iddynt gael triniaeth. Ni chawsom sicrwydd fod y trefniadau hyn yn ddiogel nac yn ddigonol ar gyfer y triniaethau a oedd yn cael eu cynnal.

Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses diffyg cydymffurfio AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) i'r adroddiad hwn.

Yn ystod yr arolygiad dilynol, esboniodd y rheolwr cofrestredig y broses ar gyfer asesu cleifion ers iddi gael ei hadolygu a'i diweddarau. Cawsom sicrwydd fod y cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith, a dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Dywedwyd wrthym fod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchoddedig ai peidio. Cawsom sicrwydd y byddai hawliau dynol cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn, ac y byddai rhagenwau a ffefrir bob amser yn cael eu defnyddio.

Roedd mynediad gwastad i'r clinig ac roedd y drysau yn addas i gadeiriau olwyn. Roedd yr ystafelloedd trin yn fawr ac wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod, gyda drysau llydan. Roedd toiled hygyrch ar gael ar lawr gwaelod y clinig, ger y fynedfa.

Nid oedd gan y clinig ddolen sain i gleifion ag anawsterau clywed. Er mwyn sicrhau y caiff anghenion unigol y cleifion eu diwallu, gall cleifion ddod â hebryngwr i'r clinig i'w helpu ag anghenion cyfathrebu.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym fod y tîm ôl-ofal yn cysylltu â'r cleifion ar ôl eu triniaeth ac y gofynnir iddynt roi adborth ar eu profiad. Anogir y cleifion hefyd i roi adborth ar Google Reviews.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod adborth yn cael ei arddangos yn y clinig. Gwelsom fod gwybodaeth am sut i roi adborth wedi'i chynnwys yn y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben, ond nad oedd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn y clinig. Cawsom gopi o'r polisi cwynion a oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac a oedd yn cynnwys manylion AGIC fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig i ni sut y caiff adborth ei gadw mewn cofnodlyfr ynghyd â chynllun gweithredu lle y gwnaed newidiadau o ganlyniad i adborth a gafwyd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Clinig rhan amser yw Signature Clinic sydd ar agor saith diwrnod y mis. Fel arfer, roedd ar agor rhwng 8am a 10pm. Dywedwyd wrthym nad oes unrhyw staff yn bresennol ar y safle pan fo'r clinig ar gau.

Roedd y clinig wedi'i leoli mewn parc busnes ac roedd lleoedd parcio ar gael. Mae'r clinig wedi'i leoli ar y llawr gwaelod a gellir mynd i mewn drwy ddefnyddio system intercom ddiogel ar ddrws ffrynt a rennir. Roedd amgylchedd y clinig yn gynnes a chrosawgar. Roedd yr ystafell aros wedi'i haddurno i safon uchel ac roedd y cynllun wedi'i ystyried yn ofalus.

Gwelsom fod ardal y dderbynfa yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, a'i bod yn olau ac yn fawr. Roedd digon o seddau a lluniaeth ar gael i'r cleifion. Roedd y toiledau wedi'u lleoli ger y fynedfa ac roeddent yn addas i gleifion ag anawsterau symudedd. Roeddent yn lân ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod amgylchedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a bod modd glanhau'r arwynebeddau yn briodol. Fodd bynnag, roedd glendid yr ardaloedd clinigol yn is na'r safon angenrheidiol ar gyfer cynnal triniaethau llawfeddygol. Ceir manylion am hyn yn adran Rheoli Heintiau yr adroddiad hwn.

Roedd gan y clinig nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd y clinig yn defnyddio rhaglen gyfrifiadurol, sef pCloud, i storio'r polisiau a'r gweithdrefnau hyn ynghyd â'r cofnodion meddygol, a gallai pob un o ganghennau Signature Clinic gael gafael arnynt.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg amgylcheddol yn cael eu cynnal gan gwmni allanol ac nid oeddent ar gael i'w gweld ar ddiwrnod yr arolygiad.

Dywedwyd wrthym mai'r rheolwr cofrestredig oedd yn darparu hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol, ond nid oedd wedi cael hyfforddiant ffurfiol gan y Cyngor Adfywio i ddarparu hyfforddiant o'r fath.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Nododd ein harsylwadau o ardal y dderbynfa fod yr amgylchedd yn lân yr olwg ac yn daclus. Roedd y coridorau a'r llwybrau cerdded yn lân ac nid oedd unrhyw annibendod. Roedd yr adeilad mewn cyflwr da a oedd yn golygu bod modd ei lanhau'n ddigonol.

Gwelsom fod y gwelyau triniaeth yn lân yr olwg a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu glanhau rhwng pob claf. Dywedwyd wrthym fod amserlenni glanhau ar gyfer pob theatr yn cael eu storio y tu ôl i ddesg y dderbynfa er mwyn atal halogi.

Roedd contract gwaredu gwastraff addas ar waith i gael gwared ar wastraff clinigol ac offer miniog. Gwelsom fod gan y clinig bolisi atal a rheoli heintiau ar waith a oedd ar gael ar ei gronfa ddata ar-lein. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r clinig ac roedd masgiau wyneb tafladwy hefyd ar gael i gleifion a staff yn ôl y gofyn.

Gwelsom nad oedd yr ardal glinigol yn ymddangos yn lân. Gwelsom olion gludiog ar droliâu ac arwynebeddau. Gwelsom fod llwch ar arwynebeddau o amgylch y theatrau. Nid oedd y theatr lawfeddygol yn cynnig y math o amgylchedd di-haint sy'n angenrheidiol i ymgymryd â'r triniaethau.

Gwelsom nad oedd y broses ddihalogi yn ddigonol ar gyfer y triniaethau a oedd yn cael eu cynnal yn y clinig. Roedd yr offer llawfeddygol aml-dro yn cael ei ddihalogi ar y safle gan staff y clinig. Nid oedd y broses hon yn unol â'r arfer gorau presennol. Gwnaethom argymhell y dylai'r broses o ddihalogi offer gael ei chyflawni fel rhan o gontract allanol er mwyn sicrhau bod yr eitemau yn cael eu sterileiddio'n effeithiol.

Ymdriniwyd â'r materion hyn mewn perthynas â glendid ac atal a rheoli heintiau o dan broses diffyg cydymffurfio AGIC a chyfeirir atynt yn [Atodiad B ac Atodiad C](#) i'r adroddiad hwn.

Yn ystod yr arolygiad dilynol ym mis Medi 2023, gwelsom fod glendid y theatrau wedi gwella. Roedd cyfarpar newydd yn cael ei ddefnyddio yn lle'r troliâu a'r arwynebeddau budr a oedd yn golygu bod modd cynnal gwaith glanhau digonol.

Gwnaethom nodi fod system awyru newydd wedi cael ei gosod a oedd yn darparu newidiadau aer. Cawsom sicrwydd y byddai'r rhain yn cael eu defnyddio'n unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwyr.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Dim ond cleifion dros 18 oed y mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i'w trin. Cadarnhaodd ein sgysiau â'r staff eu bod yn cydymffurfio â'r amod hwn.

Roedd polisi diogelu ar waith yr oedd dyddiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf wedi'i nodi arno a oedd yn cynnwys rhifau cyswllt y tîm diogelu lleol a siart lif diogelu. Y rheolwr cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu dynodedig ar gyfer y clinig. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw atgyfeiriadau diogelu wedi cael eu gwneud.

Fodd bynnag, roedd y staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn pe bai ganddynt bryder diogelu.

Yn ystod ein hadolygiad o'r cofnodion hyfforddiant, gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu llawdriniaethau cosmetig yn unol â'i ddatganiad o ddiben. Gwnaethom nodi bod y dyfeisiau meddygol a ddefnyddir gan y clinig yn ddigonol ar gyfer y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Gwelsom dystiolaeth fod y peiriannau wedi cael eu gwasanaethu a'u calibradu yn ddiweddar gan y gwneuthurwr.

Roedd y cofnodion gwasanaethu ar gyfer y peiriannau meddygol yn y clinig yn gyfredol ac wedi'u cwblhau gan y cyflenwr a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod archwiliadau perthnasol yn cael eu cynnal ar y peiriannau a'r cyfarpar cyn yr apwyntiadau.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwnaethom adolygu'r broses ar gyfer asesu cleifion cyn, yn ystod ac ar ôl llawdriniaeth. Ni chawsom sicrwydd fod y broses bresennol yn ddigonol i nodi bod cyflwr claf yn dirywio. Ni chawsom sicrwydd fod cleifion yn cael eu monitro'n ddigonol yn ystod triniaethau er mwyn nodi bod eu cyflwr yn dirywio.

Esboniodd y rheolwr cofrestredig y broses sydd ar waith er mwyn i'r cleifion gael cymorth ar ôl eu llawdriniaeth. Dywedwyd wrthym fod y clinig ar agor saith diwrnod y mis ac felly nad oes unrhyw staff yn bresennol am y rhan fwyaf o'r mis os bydd angen sylw meddygol ar gleifion ar ôl llawdriniaeth. Pe byddai gan gleifion broblem ar ôl llawdriniaeth, roeddent yn cael eu cynghori i gysylltu â chanolfan gymorth dros y ffôn sydd wedi'i lleoli yn yr Alban a fyddai naill ai'n cynghori'r cleifion i fynychu adran Damweiniau ac Achosion Brys neu'n gofyn i lawfeddyg gysylltu â nhw. Byddai'r llawfeddyg yn teithio i asesu'r claf pe byddai angen.

Nid oeddem o'r farn fod y broses hon yn ffordd ddiogel na ddigonol o ddarparu ôl-ofal pe byddai problem yn codi ar ôl llawdriniaeth.

Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses diffyg cydymffurfio AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) i'r adroddiad hwn.

Yn ystod ein hymweliad dilynol, dangoswyd gwell proses i ni lle roedd arwyddion hanfodol i fywyd y cleifion yn cael eu cofnodi bob 15 munud yn ystod eu triniaeth. Roedd y broses hon yn cael ei goruchwyllo gan glinigydd cymwysedig.

Yn ystod ein harolygiad dilynol, esboniodd y rheolwr cofrestredig y system ddiwygiedig ar gyfer gofal ar ôl llawdriniaeth. Cawsom sicrwydd fod y broses wedi'i diweddarau ar gyfer cael gafael ar gyngor meddygol yn ddiogel ac yn ddigonol.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw gan ddefnyddio meddalwedd ar-lein ddiogel ac roedd modd edrych arnynt gan ddefnyddio'r feddalwedd honno, yr oedd angen cyfrinair ar ei chyfer er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod.

Roedd hwn yn unigryw i bob aelod o staff. Dywedwyd wrthym mai dim ond staff clinigol a staff rheoli oedd yn gallu gweld cofnodion cleifion. Roedd y system hon yn cael ei defnyddio gan bob un o ganghennau Signature Clinic ac felly roedd modd gweld cofnodion cleifion o bell os oedd angen.

Gwelsom fod y clinig yn gofyn am gydsyniad cleifion cyn tynnu ffotograffau o wahanol gamau eu triniaeth. Roedd y ffotograffau yn cael eu storio'n ddiogel yn yr un system gofnodion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff Signature Clinic ei weithredu gan reolwr cofrestredig. Mae'r unigolyn hwn yn un o gydberchnogion y cwmni hefyd. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn ymweld â'r lleoliad unwaith y mis. Gwelsom fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob mis a bod gwybodaeth am y clinig yn cael ei rhannu a'i thrafod yn ystod y cyfarfodydd hyn.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth y clinig wedi'u strwythuro'n dda a bod strwythur sefydliadol clir a oedd yn cynnwys sawl clinig ledled y DU. Mae'r rheolwr cofrestredig yn goruchwyllo'r holl brosesau llywodraethu gyda chymorth gan y rheolwr adnoddau dynol. Dangosodd ein hadolygiad o gofnodion staff fod gan y rheolwr adnoddau dynol system drefnus ar waith i fonitro hyfforddiant, arfarniadau a gwiriadau cyflogaeth y staff.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod pryderon a digwyddiadau yn cael eu cofnodi mewn ffeiliau cyfrifiadurol a bod y rheolwr cofrestredig yn ymchwilio iddynt. Roedd gan y clinig bolisi cwyno ysgrifenedig. Roedd hwn ar gael yn y datganiad o ddiben. Er mwyn helpu'r cleifion i wneud cwyn ar ôl gadael y clinig os byddant yn dymuno, rydym yn argymhell ychwanegu gweithdrefn gwyno a datganiad o ddiben at wefan gynhwysfawr y clinig.

Dywedwyd wrthym y byddai'r rheolwr cofrestredig yn ymdrin yn brydlon ag unrhyw gwynion yn y lle cyntaf, pryd bynnag y bo'n bosibl. Gwelsom fod sawl cwyn wedi'i chadw mewn ffolder dogfennaeth yn y clinig. Dywedwyd wrthym fod y cwynion a geir yn ymwneud yn bennaf ag anfodlonrwydd cleifion â chanlyniadau eu triniaethau.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddent yn gofyn i gwynion anffurfiol a fynegwyd ar lafar i aelod o staff gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig er mwyn sicrhau ymateb priodol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Esboniodd y rheolwr cofrestredig fod y clinig ar agor saith diwrnod y mis ac y caiff y dyddiau hyn eu dewis gan ddiwynnu ar y galw.

Nid oedd staff y clinig yn lleol i'r ardal ac roeddent yn teithio o'r gangen yn Birmingham. Dangosodd y rheolwr adnoddau dynol gronfa ddata ar-lein i ni a oedd yn cynnwys cofnodion hyfforddiant a gwiriadau cyflogaeth ar gyfer yr aelodau hyn

o staff. Roedd y system hon yn cynnwys marcwyr yn y dyddiadur a rhybuddion i roi gwybod pan oedd angen i'r staff adnewyddu eu hyfforddiant.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom nad oedd y staff a gyflogir yn y clinig ac sy'n cynorthwyo yn ystod triniaethau llawfeddygol yn meddu ar gymwysterau addas. Ni chawsom sicrwydd fod y staff hyn wedi ymgymryd â'r hyfforddiant cywir na'u bod yn meddu ar y sgiliau cywir i ddarparu gofal cleifion.

Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses diffyg cydymffurfio AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) i'r adroddiad hwn.

Yn ystod yr arolygiad dilynol, cawsom dystiolaeth fod aelodau newydd o staff cymwysedig wedi'u penodi. Cafodd y model staffio diweddaraf ei adolygu a'i gymeradwyo. Roedd y rheolwr cofrestredig hefyd wedi penodi rheolwr clinig a oedd hefyd yn nyrs gofrestrdig i oruchwylio'r broses o reoli'r clinig o ddydd i ddydd ac i reoli'r trefniadau llywodraethu a diogelwch.

Cawsom dystiolaeth o gyfarfodydd llywodraethu a diogelwch a gynhaliwyd yn sgil yr arolygiad er mwyn gwella prosesau'r clinig ymhellach.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu datrys yn ystod yr arolygiad			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Signature Clinic, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 17 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r person cofrestredig gyflogi staff â chymwysterau addas sy'n meddu ar sgiliau a phrofiad ym maes triniaethau llawfeddygol.	Rheoliad 20(1)(a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol Cymru	Mae'r gwasanaeth wedi diwygio ei bolisi staffio theatrau ac wedi sicrhau ei fod yn cydymffurfio â datganiad safbwynt y Cyngor Gofal Aml-driniaethol yn 2019. Mae'r polisi yn amlinellu'r rolau ac yn cynnwys diffiniad o ofynion pob rôl a'r hyn y gellir ei gyflawni yn unol â'r canllawiau arfer gorau cenedlaethol. Dim ond ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth/ HCPC fydd yn ymgymryd â dyletswyddau sgrybs o hyn ymlaen. Mae CV yr ODP a recriwtiwyd wedi'i atodi i'r cynllun gweithredu hwn.	Sayani Sainudeen	Bydd y polisi ar waith o 1 Awst - wedi'i gwblhau Mae'r ODP wedi dechrau yn ei swydd - wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob eitem o gyfarpar budr ei symud o'r theatrau a bod cyfarpar monitro, cyffuriau brys a chyfarpar adfywio ar gael	Rheoliad 40(1)(a) o Reoliadau Gofal	Caiff pob eitem o gyfarpar budr ei symud o'r theatr a rhoddir eitemau newydd yn barod.	Sayani Sainudeen	Gosod cyfarpar newydd yn barod i'w ddefnyddio yn lle cyfarpar budr - wedi'i gwblhau

<p>yn y theatr. At hynny, rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system awyru addas yn cael ei gosod yn y theatrau.</p>	<p>Iechyd Annibynnol 2011</p>	<p>Dechreuodd y Nyrs Rheoli Heintiau, Jenny Gartland, yn ei swydd ar 1 Medi 2023.</p> <p>Mae'r Nyrs Grŵp Theatr, Lee Rycroft, yn ei swydd ers 1 Awst 2023.</p> <p>Mae cyfarpar monitro ar gael yn y ddwy theatr ac yn y ddwy ystafell adfer.</p> <p>Cynhaliwyd profion offer cludadwy (PAT) pellach ar 05/09/2023 gan gwmni trydanol.</p> <p>Mae bagiau parod gwyrdd sy'n cynnwys eitemau priodol i'w defnyddio mewn argyfwng yn cael eu defnyddio yn lle'r Trolïau Adfywio. Ceir un ym mhob theatr.</p> <p>Mae unedau awyru gan Medicaïr wedi cael eu gosod yn Theatr 1. Ein bwriad yw defnyddio un theatr yn unig yn y dyfodol.</p>		<p>Mae cyfarpar monitro ar gael</p> <p>Mae bagiau gwyrdd BOC i'w defnyddio mewn argyfwng ar gael bellach yn lle'r cyffuriau brys a'r trolïau adfywio.</p> <p>Mae Nyrs Rheoli Heintiau a Rheolwr Grŵp Theatr ar waith - wedi'i gwblhau</p> <p>Cynhaliwyd profion PAT ar 05/09/2023</p> <p>Unedau awyru ar waith ers 01/09/2023</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cleifion eu monitro yn ystod eu triniaeth a sicrhau y gall y staff nodi cyn gynted â phosibl pan fydd cyflwr claf yn dirywio.</p> <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig hefyd roi proses ôl-ofal ar waith lle y gall cleifion gael gafeal ar gyngor neu gymorth</p>	<p>Rheoliad 40(1)(d)(ii) a (iv) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011</p>	<p>Mae'r siart NEWS2 a'r broses monitro yn ystod llawdriniaethau wedi bod ar waith ers cyn dyddiad yr arolygiad. Bydd hyn yn parhau, gydag arsylwadau yn ystod llawdriniaethau yn cael eu cynnal bob 15 munud.</p> <p>Mae polisi ôl-ofal wedi'i roi ar waith ar gyfer y clinig yng Nghaerdydd. Mae'r polisi yn amlinellu</p>	<p>Sayani Sainudeen a Valerie Taylor ar gyfer darparu hyfforddiant a llunio polisi</p>	<p>Mae proses monitro NEWS2 ar waith</p> <p>Val i lunio polisi ar reoli cleifion sy'n dirywio a pholisi trosglwyddo cleifion erbyn 10/08/2023</p>

meddygol yn ystod oriau gweithredu arferol a'r tu allan iddynt.

ymateb Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 ar gyfer darparu ôl-ofal pan fydd y clinig ar gau. Byddai ymateb Lefel 1 yn cynnwys ffonio 999. Byddai ymateb Lefel 2 yn cynnwys cael eu gweld gan feddyg yng Nghaerdydd o fewn 24 awr. Byddai ymateb Lefel 3 yn cynnwys archwiliad gan lawfeddyg yn ystod yr ymweliad nesaf o fewn tair wythnos.

Mae polisi ar gyfer cleifion sy'n dirywio a pholisi trosglwyddo cleifion ar waith.

Mae Paul Macbeth yn gweithio ar y Cytundebau Lefel Gwasanaeth

Val i hyfforddi'r Cynorthwyr Gofal Iechyd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 14/08/2023

Cynnal cyfarfod i ymestyn y ddarpariaeth ôl-ofal erbyn 08/08/2023

Rhoi Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar waith gyda meddyg teulu preifat lleol

Cytundeb Lefel Gwasanaeth ag Ysbyty Athrofaol Cymru - i'w gadarnhau yn dibynnu ar ymateb y GIG, a all amrywio

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Sayani Sainudeen

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Meddygol a Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad:

06/09/2023

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Signature Clinic, Caerdydd,

Dyddiad yr arolygiad: 17 Gorffennaf a 7 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant adfywio yn cael ei ddarparu gan unigolyn cymwysedig addas.	Rheoliad 21(2)(b) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae hyfforddwr Cynnal Bywyd Sylfaenol cymwysedig wedi cael ei gyflogi a fydd yn gyfrifol am hyfforddi pob un o gyflogeion y sefydliad	Valerie Taylor	Wedi'i gwblhau
Dihalogi		Nid oes unrhyw wasanaethau sterileiddio ar gael ar safle'r clinig. Caiff pob hambwrdd a darnau o offer llawfeddygol eu dihalogi yn allanol gan ddarparwr gwasanaethau dihalogi arbenigol.	Valerie Taylor	Wedi'i gwblhau

		Defnyddir rhai darnau o offer untro tafladwy.		
Rheoli cwynion		Mae polisi cwynion tri cham (polisi: Corp 01) (wedi'i ddilysu drwy drefniadau llywodraethu clinigol) ar waith. Caiff gwybodaeth i gleifion am gwynion ei harddangos yn y clinig, ac mae'r poster hwn yn cynnwys manylion cyswllt AGIC	Valerie Taylor	Wedi'i gwblhau
Rheoli allweddï yn ddiogel		Caiff cypyrddau eu cloi a chedwir yr allweddï yn ddiogel pan fo'r clinig ar gau. Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol (Nyrs Gofrestredig neu Ymarferydd Gofal Iechyd Proffesiynol) sy'n gyfrifol am yr allweddï bob dydd. Cedwir cofnodlyfr i nodi pan gaiff allweddï eu defnyddio a'u dychwelyd.	Valerie Taylor	Wedi'i gwblhau
Rheolwr y Clinig		Mae rheolwr gofal iechyd cofrestredig proffesiynol (Nyrs Gofrestredig neu Ymarferydd Gofal Iechyd Proffesiynol) bob	Valerie Taylor	Wedi'i gwblhau

		amser yn bresennol ar y safle fel aelod o staff ychwanegol.		
Diogelu a gwella iechyd		Mae dogfennaeth diogelu a gwella iechyd wedi cael ei datblygu i'w darparu i gleifion yn ystod y cam cyn y llawdriniaeth. Mae'r cleifion yn cael gwybodaeth ac yn cael eu cyfeirio at gymorth rhoi'r gorau i smygu. Bydd y cleifion hefyd yn cael gwybodaeth am fwyta'n iach er mwyn helpu i sicrhau bod eu clwyfau yn gwella a gwybodaeth am hydradu da i gefnogi eu lles.	Valerie Taylor	30/06/2024
Safonau atal a rheoli heintiau		Mae Rheolwr Nyrs Atal a Rheoli Heintiau wedi dechrau yn ei swydd. Caiff archwiliadau Rheoli Heintiau eu cynnal bob chwarter. Mae polisiâu atal a rheoli heintiau ar waith.	Valerie Taylor	Wedi'i gwblhau
Argaeledd y Gymraeg		Mae gwasanaeth gan ddehonglydd ar gael mewn amser real i gleifion nad Saesneg yw eu	Valerie Taylor	Wedi'i gwblhau

		hiaith gyntaf, neu os mai Cymraeg yw eu dewis iaith.		
Adborth gan gleifion		Gofynnir am adborth gan gleifion yn ystod yr alwad ffôn gyntaf ar ôl eu llawdriniaeth a wneir gan y tîm ôl-ofal. Gofynnir am adborth gan bob claf.	Valerie Taylor	Wedi'i gwblhau
Monitro cleifion sy'n dirywio		Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol. Mae polisi rheoli cleifion sy'n dirywio ar waith (polisi CO14)	Valerie Taylor	Wedi'i gwblhau
Darparu ôl-ofal		Pan nad yw'r clinig ar agor, mae gweithiwr Gofal lechyd proffesiynol cofrestredig cyflogedig (Nyrs Gofrestredig neu Ymarferydd Gofal lechyd Proffesiynol) ar gael i fynychu'r clinig ar unrhyw ddiwrnod i agor y clinig a darparu gofal dilynol.	Valerie Taylor	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Valerie Taylor

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol

Dyddiad: 17/06/2024